***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 2701

## Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 2008

**1.** Daw'r priffyrdd newydd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu hadeiladu ar hyd y llwybrau a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn gefnffyrdd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

**2.** Mae llinellau canol y cefnffyrdd newydd yn cael eu dangos gan linellau duon trymion ar y plan a adneuwyd.

**3.** Bydd y darn o gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â llinellau lletraws â stribedi bras ar y map a adneuwyd yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffordd ddiddosbarth o'r dyddiad y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hysbysu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fod y cefnffyrdd newydd wedi'u hagor ar gyfer traffig trwodd.

**4.** Yn y Gorchymyn hwn:

mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

i. ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn y Rhif HA 10/2 NAFW 17 ac sydd wedi'i farcio Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 2008 ac sydd wedi'i lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru ac a adneuwyd yn Uned Storio ac Adfer Cofnodion Llywodraeth Cynulliad Cymru (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd;

ii. ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470);

iii. "y cefnffyrdd newydd" ("*the new trunk roads*") yw'r priffyrdd a grybwyllir yn erthygl 1 o'r Gorchymyn hwn ac ystyr 'cefnffordd newydd' yw un o'r cefnffyrdd hynny.

**5.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Hydref 2008 a'i enw yw "Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 2008"

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

*S C Shouler*
Cyfarwyddwr Cynllunio a Gweinyddu
Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

10 Hydref 2008